| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| Dyddiad y cyfarfod: | **27 Medi 2017** |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | **Lisa Lovegrove, Prif Archwilydd Mewnol** |
| Awdur yr Adroddiad: | **Lisa Lovegrove, Prif Archwilydd Mewnol** |
| Teitl: | Siarter Archwilio Mewnol |

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

   Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Siarter Archwilio Mewnol ddiwygiedig er cymeradwyaeth y Pwyllgor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

   Diweddarwyd y Siarter Archwilio Mewnol yn dilyn newidiadau diweddar i strwythur y gwasanaeth Archwilio Mewnol ac i adlewyrchu newidiadau diweddar i Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

3. Beth yw'r Argymhellion?

   Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol ddiwygiedig.

4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn gofyn i'r Prif Archwilydd Mewnol ddatblygu a chynnal Siarter Archwilio Mewnol gyfredol.

4.2 Mae'r Siarter yn diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb gweithgarwch archwilio mewnol ac yn cynnwys manylion:

- o ddiffiniad archwilio mewnol;
- llinellau adrodd y Prif Archwilydd Mewnol;
- hawliau mynediad Archwilio Mewnol;
- cwmpas gwaith Archwilio Mewnol;
- strwythur ac adnoddau Archwilio Mewnol; a
- chyfrifoldebau archwilydd mewnol.

4.3 Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol. Gan nad ydyw'r Siarter bresennol bellach yn gyfredol yn dilyn newidiadau i strwythur gwasanaeth Archwilio Mewnol a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae Siarter ddiwygiedig wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid oes cyfraniad uniongyrchol i Flaenoriaethau Corfforaethol yn gysylltiedig â’r penderfyniad hwn. Mae’n ofyniad gan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymeradwyo’r Siarter.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad gyda’r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau’r asesiad o Effaith ar Les?

Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad gyda’r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad gyda’r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad gyda’r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i’w lleihau?

Os nad yw’r Pwyllgor yn cymeradwyo’r Siarter, gall y gwasanaeth Archwilio Mewnol fod yn agored i feirniadaeth am beidio â chydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Nid oes pŵer penodol yn gysylltiedig â’r penderfyniad hwn, ond mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gymeradwyo’r Siarter.